FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

COFNODION

Y deunawfed cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref Wrecsam ar 25 Tachwedd 2005

50/05 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Presenoldeb:

LLYWYDD
Martin Howorth

YSGRIFENNYDD GWEITHREDOL
Emma Haldane

AELODAU
John Cooper-Poole
Sue Gittins
Gwynfor Jones
Mavis McBride
Clive Menzies
Gerald Moss
Margaret Murphy
Mabyn Pickering
Karl Prakel
Shelagh Roberts
Tim Stevens
Edward Wardle

MYNYCHWYR ERAILL
Y Rhingyll Pete Charleston
P Humphreys
Andrew Kelly

Ymddiheuriadau:
Ieuan Lewis, Mike Crawshaw.
Anfonodd Alun Price (CCGC) ei ymddiheuriad hefyd

51/05 CROESAWU AELODAU NEWYDD A CHYFLWYNIADAU

Cyflwynodd Martin Howorth, llywydd y fforwm, ei hun ac Emma Haldane, yr ysgrifennydd gweithredol.

Croesawodd aelodau hen a newydd i'r fforwm gan bwysleisio pwysigrwydd cydbwysedd y gynrychiolaeth yn y fforwm o ran tirfeddianwyr, deiliaid, defnyddwyr hamdden ynghyd â chynrychiolaeth aelodau sydd â diddordebau eraill. Dosbarthwyd ffurflen aelodaeth i'w chwblhau gan bob aelod.

Aeth y llywydd yn ei flaen i wahodd aelodau i gyflwyno eu hunain drwy roi cyflwyniad byr am eu cefndir, eu busnes a'u diddordebau hamdden.

Cyflwynodd y 12 aelod a oedd yn bresennol eu hunain yn eu tro.

52/05 MATERION SY'N CODI O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 2 MEDI 2005

Dosbarthwyd y cofnodion drafft i'r aelodau ar 26 Hydref 2005 a rhoddwyd cyfnod o bythefnos i gyflwyno sylwadau. Bu rhaid cywiro un llythyren gychwynnol a chadarnhaodd y llywydd y cofnodion fel cofnod cywir ar 25 Tachwedd 2005.

(29/05) Is-ffyrdd. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2005, penderfynodd y fforwm y dylai'r ysgrifennydd ysgrifennu at y Prif Weithredwr yn mynegi'r anfodlonrwydd am yr ymateb a dderbyniwyd. Gofynnwyd a wnaed hyn, ond ni fu'n bosibl cael ateb yn ystod y cyfarfod.[1]

(35/05) Gofynnwyd a gysylltwyd â Groundwork ynghylch y giatiau.
Gweithred : Ysgrifennydd i ofyn i Groundwork Wrecsam a Sir Y Flint i gywiro'r problemau ac adrodd yn ôl i AK.[2]

(39/05) Gofynnodd Mabyn Pickering a dderbyniwyd ateb ynghylch y llythyr a ysgrifennwyd at Ystad Wynnstay yn gofyn am gyfarfod. Cadarnhaodd yr ysgrifennydd gweithredol na dderbyniwyd ateb.
Gweithred: Ysgrifennydd i wneud ymholiadau am ateb.

(42/05) Cerbydau modur yng nghefn gwlad. Nid oedd adroddiad wrth law.
Gweithred: Ysgrifennydd i ddilyn y mater hwn i fyny o ran y llwybr fforddolion.

(44/05) Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
Mewn ymateb i gwestiwn Mabyn Pickering ynghylch pa mor aml y cynhaliwyd cyfarfodydd y pwyllgor archwilio, cadarnhaodd y llywydd bod y pwyllgor archwilio yn cynnwys aelodau Cyngor Wrecsam ac y bydd panel archwilio penodol yn cyfarfod i drafod rhai o bolisïau'r cyngor unwaith y mis ar amser penodol.

(47/05) Adroddiadau Blynyddol
Cadarnhaodd CCGC bod llunio adroddiadau blynyddol yn ofyn statudol ac y cyhoeddwyd cyfarwyddiadau manwl yn esbonio'r hyn yr oedd ei angen.
Awgrymodd Tim Stevens efallai y byddai detholiad o gofnodion blaenorol a chrynhoad yn dderbyniol. Teimlodd y byddai'r angen am adroddiad blynyddol yn rhoi cyfle i CCGC weld pa FfMLl oedd yn sefyll allan a pha faterion a drafodwyd, ynghyd â'r problemau a wynebwyd. Roedd Karl Prakel o'r farn y dylai'r adroddiad fod yn fyr ac yn gryno.
Gofynnodd Mabyn Pickering pam nad oedd CCGC wedi amlygu'r angen am adroddiad blynyddol yng nghynt.
Cytunodd y fforwm eu bod yn dymuno bod ynghlwm wrth adroddiad blynyddol y fforwm ac y dylid cynnwys rhestr o'r cofnodion blaenorol a chyn aelodau.
Gofynnodd Gerald Moss a ellid cynnwys y daith maes i Lanarmon DC fel arfer da.
Nododd Clive Menzies y byddai'n fodlon llunio dogfen ddrafft os nad oedd cofnodion o'r cyfarfodydd blaenorol ar gael.
Cytunodd aelodau'r fforwm â'r cynnig.
Gweithred: Ysgrifennydd i anfon gwybodaeth at Clive Menzies[3]

(48/05) Cytunodd aelodau'r fforwm y dylid gwahodd ceidwaid mynediad i gyfarfodydd y fforwm yn y dyfodol i roi adroddiadau am dir mynediad agored.
Gweithred: Ysgrifennydd i'w gynnwys ar yr agenda nesaf.

53/05 CYFRAITH Y PRIFFYRDD YNG NGHEFN GWLAD

Rhoddodd y rhingyll Pete Charleston, Swyddog Amgylcheddol a Bywyd Gwyllt Heddlu Gogledd Cymru, a secondiwyd i gydweithio â Chyngor Cefn Gwlad Cymru gyflwyniad am droseddau bywyd gwyllt â gyrru cerbydau oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon.

54/05 CERBYDAU MODUR YNG NGHEFN GWLAD

Yn dilyn cyflwyniad y rhingyll Pete Charleston, mynegodd Tim Stevens ei bryder am y diffyg cyfleusterau sydd ar gael i yrru oddi ar y ffordd yn yr ardal hon. Gofynnodd p'un a oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i awdurdodau lleol nodi safleoedd ar gyfer gyrru cerbydau oddi ar y ffordd yn ddiogel. Roedd beiciau modur mini'n cynyddu mewn poblogrwydd ac roedd defnyddio ardaloedd trefol fel safleoedd anghyfreithlon hefyd yn cynyddu.
Cadarnhaodd y llywydd bod gyrru cerbydau oddi ar y ffordd yn broblem i barciau gwledig ac ardaloedd trefol lleol a bod hyn wedi bod yn bryder i'r Cyngor erioed.
Gofynnodd Tim Stevens p'un a oedd FfMLl yn mynd i fod ynghlwm wrth y broses o ganfod cyfleuster penodol diogel. Ni allai'r llywydd gynnig sylwadau am y mater a byddai'n gwirio a oedd yr awdurdod wedi derbyn unrhyw ddogfen ymgynghori gan y Cynulliad ynghylch hyn.
Gweithred: Ysgrifennydd i wirio a dderbyniwyd dogfen ymgynghori.

55/05 ADRODDIAD YR YSGRIFENNYDD

Gan nad oedd yr ysgrifennydd yn gallu bod yn bresennol ni chafwyd adroddiad ar yr achlysur hwn.

56/05 CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY

Dywedodd y llywydd wrth y fforwm y byddai'n rhoi diweddariad rheolaidd ynghylch y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac y byddai'n eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod o'r fforwm. Dosbarthwyd 'Diweddariad am y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer FfMLl" i bob aelod a oedd yn bresennol ac ailadroddwyd rhai pwyntiau'n gryno o'r cyfarfod blaenorol.

Nododd bod angen i'r cynllun gwella hawliau tramwy (ROWIP) gael ei gwblhau yn unol ag Adran 60 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a bod rhaid iddo fod ar waith erbyn 1 Tachwedd 2007.

Fel rhan o gyfnod cyntaf y cynllun, cadarnhaodd yr anfonwyd llythyrau at aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac unigolion eraill oedd â diddordeb, yn gofyn am eu safbwyntiau ynghylch y rhwydwaith hawliau tramwy. Sefydlwyd panel dinasyddion a dosbarthwyd arolwg 'Llais y Bobl' i sampl cynrychioladol o boblogaeth Wrecsam. Derbyniwyd ymateb da. Bu i gyfanswm o 303 o holiaduron gael eu dychwelyd gan aelodau'r panel dinasyddion ac i hyn gyfateb ag ymateb o 58%. Teimlai Gwynfor Jones fodd bynnag, bod yr ymateb yn eithaf isel.

Teimlai Tim Stevens nad oedd y sampl 16% o'r rhwydwaith hawliau tramwy yr oedd yr Awdurdod ac Exegesis yn ei ddefnyddio yn ddigon.

Dywedodd y llywydd wrth yr aelodau y sefydlwyd dau weithdy i roi cyfle i'r cynghorau cymunedol, cerddwyr a'r merlotwyr ceffylau ofyn cwestiynau am y cyfnod asesu a materion cefn gwlad eraill.

Dosbarthwyd dogfen rhanddeiliaid i roi cyfle i'r aelodau awgrymu unrhyw sefydliadau pellach y dylid eu gwahodd i'r cyfarfodydd perthnasol.

Gofynnodd Tim Stevens p'un a ystyriwyd hawliau tramwy traws ffiniol rhwng siroedd cyfagos. Cadarnhaodd y llywydd yr ymgynghorwyd â'r awdurdodau cyfagos fel rhan o'r ymgynghoriad. Bu i Sir Caer ddod yn ôl at Wrecsam gyda nifer o faterion ynghylch hawliau tramwy ac roedd y rhain yn cael eu hystyried.

Cadarnhaodd y llywydd y byddai Exegesis yn adolygu'r map terfynol ac yn rhoi ei farn am y materion a oedd yn ymwneud ag ef.

Gofynnodd Clive Menzies p'un a fyddai'r ymgynghorwyr yn ystyried olgroniad y gorchmynion i addasu'r map terfynol wrth ystyried y map terfynol. Gofynnodd hefyd a oedd y rhwydwaith llwybrau coll i gael ei ystyried ar gyfer y prosiect "Ffyrdd Coll" ("Lost Ways") sef menter i gofnodi hawliau tramwy cyhoeddus nad ydynt yn ymddangos ar y map terfynol ar hyn o bryd.

Cytunodd yr aelodau y byddent yn dymuno bod ynghlwm wrth is-grŵp gyda'r ymgynghorwyr.
Gweithred: Ysgrifennydd i wahodd holl aelodau'r fforwm i fynychu gweithdy ar 21 Rhagfyr 2005.

Cyfeiriodd Mabyn Pickering yn ystod y cyfarfod at ddogfen a oedd yn ymwneud â Rhesymoli Cynlluniau Llywodraeth Leol a oedd yn ystyried dyfodol Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy [4].

57/05 CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU

Ni chafwyd adroddiad ar yr achlysur hwn.

58/05 ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD YN Y CYFARFOD NESAF

Esboniodd y llywydd y weithdrefn o ethol cadeirydd ac is-gadeirydd. Cytunwyd 1. y dylai'r ysgrifennydd dderbyn enwebiadau o fewn tair wythnos; 2. dylai'r ysgrifennydd gylchredeg manylion y rheiny a enwebwyd i'r aelodau a 3. byddai'r unigolyn sy'n dod yn ail i'r buddugol yn is-gadeirydd.

Cafwyd cwestiynau am sut y byddai pleidleisiau cyfartal yn cael eu datrys a ph'un a fyddai'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn cael eu penodi'n flynyddol.
Gweithred: Ysgrifennydd i ddarganfod hyn erbyn y cyfarfod nesaf.

59/05 UNRHYW FATER ARALL

Dim eitemau.

60/05 AGENDA AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

Awgrymodd Clive Menzies y dylai unrhyw aelodau sy'n dymuno rhoi eitem ar yr agenda ysgrifennu disgrifiad cryno ohono i'w gylchredeg fel rhagflas o'r hyn sydd i gael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

Awgrymodd Edward Wardle bod y fforwm hefyd yn trafod amser i ddod â chyfarfodydd y fforwm i ben yn y dyfodol.

Eitemau a awgrymwyd gan aelodau ar gyfer yr agenda:

1. Cydbwysedd y fforwm.
2. Defnyddio recordydd tâp i gymryd cofnodion.
3. Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP)
4. Ceisiadau cynllunio

61/05 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Gwener, 3 Chwefror 2006 am 1.30 pm yn Ystafell Bwyllgor 3.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.20pm.

Troednodion

[1] Ar ôl y cyfarfod, cadarnhawyd yr ysgrifennwyd y llythyr at y Prif Weithredwr yn mynegi anfodlonrwydd ym mis Awst ac i aelod lleol y Cyngor hefyd dderbyn copi. Ni dderbyniwyd ymateb.

[2] Ar ôl y cyfarfod, nodwyd y cysylltwyd â Groundwork ym mis Awst am y giatiau ac i'r ysgrifennydd ddeall y byddai swyddog o Groundwork yn cysylltu ag Andrew Kelly. Nododd Groundwork y byddai'r holl waith i atgyweirio'r giatiau wedi ei gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd.

[3] Yn dilyn y cyfarfod, cafwyd gwybod bod yr ysgrifennydd eisoes wedi paratoi'r wybodaeth ar gyfer y tair blynedd diwethaf. Bydd y mater yn cael ei roi ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

[4] Ar ôl y cyfarfod, nodwyd bod yr ymgynghoriad wedi ei gwblhau ar 30 Tachwedd 2005 yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Atodir y manylion.

Teitl: Rhesymoli Cynlluniau Llywodraeth Leol – Ystyried Ymatebion i'r Ymgynghoriad.

Pwrpas

1. Gofynnir i'r pwyllgor ystyried yr ymateb yn dilyn yr ymgynrhoiad ynghylch Rhesymoli Cynlluniau Llywodraeth Leol a'r newidiadau i weithredu'r cynigion a wnaed yn dilyn yr ymatebion hyn.

2. Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy - ni fydd y cynlluniau cyntaf yn barod hyd 2007, a byddant yn para am ddeng mlynedd. Teimlai'r ymgynghorwyr nad yw strategaethau cymunedol a dangosyddion perfformiad yn darparu dulliau boddhaol i gynllunio a gweithredu ar hyn o bryd. Byddai hefyd angen ystyried rôl fforymau mynediad lleol yn y dyfodol. Ar ôl trafodaeth â chydweithwyr yn Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n arwain y maes polisi hwn, cytunwyd y byddai'r cynllun hwn yn parhau i fod yn rhan o'r cynigion rhesymoli cynlluniau llywodraeth leol. Fodd bynnag, fe'i gwneir yn amlwg i awdurdodau lleol y bydd angen llunio'r cynllun cyntaf erbyn 2007 yn arbennig o gydnabod y gwaith a wnaed hyd yn hyn wrth ddatblygu'r cynllun hwn. Unwaith y bydd y cynllun cyntaf wedi ei lunio a'i roi ar waith byddai gan gydweithwyr yn Llywodraeth y Cynulliad, awdurdodau lleol a phartneriaid amser i asesu sut i ddarparu'r gwasanaethau'n effeithiol heb yr angen am gynllun.

Ysgrifennydd y Fforwm: John Marchant, Adran yr Amgylchedd, Adeiladau'r Goron, Stryt Caer, Wrecsam, LL13 8BG Rhif ffôn: 01978 297151 Ffacs: 01978 297103
E-bost: laf@wrexham.gov.uk Gwefan y fforwm: www.wrexham.gov.uk/laf